GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion
# Canllaw i Ganser y Bledren – Triniaeth BCG

# Adran Wroleg

---

**Beth yw triniaeth BCG?**

- Mae BCG yn frechiad gwanedig byw sy'n cael ei ddefnyddio i drin TB (twbercwlosis) ond gellid hefyd ei ddefnyddio i drin canser y bledren.
- Mae modd ei roi i mewn i'r bledren drwy gathetr, i helpu i leihau'r risg o'r canser yn dychwelyd neu'n digwydd eto.
- Bydd yn achosi llid pan fydd yn cael ei roi i mewn i'r bledren. Mae'r llid hwn yn dinistrio cellau canser. Nod y driniaeth hon yw atal y canser rhag tyfu a lledaenu.
- Fel arfer, rhoddir y driniaeth BCG unwaith yr wythnos am 6 wythnos.

**A oes unrhyw reswm pam na ddylwn i gael BCG?**

- Os oes gennych heintiad y llwybr wrinol (UTI).
- Os cynhaliwyd eich TURBT (y llawdriniaeth gyntaf i dynnu'r canser o'ch pledren) llai na 14 diwrnod cyn dyddiad eich triniaeth BCG.
- Os ydych yn cymryd meddyginiaeth atal imiwnedd neu os oes gennych system imiwn wan.
- Os oes gennych anhwylder gwaedu.
- Os oes gennych TB actif, ac yn cael triniaeth ar ei gyfer.
- Os ydych yn bwydo ar y fron, yn feichiog neu'n ceisio dod yn feichiog, dylech drafod hyn â'ch meddyg cyn dechrau ar unrhyw driniaeth BCG.
- Dylech aros am bythefnos cyn neu ar ôl brechiad ffliw, neu 6 wythnos cyn neu ar ôl brechiad yr eryr cyn cael triniaeth BCG.

**Oes angen i mi wneud unrhyw beth cyn y driniaeth?**

- Peidiwch ag yfed unrhyw beth am 4 awr cyn y driniaeth. Gallwch yfed un gwydraid o ddŵr gyda'ch brecwast. Drwy yfed llai bydd eich arennau'n cynhyrchu llai o wrin sy'n golygu y bydd yn cymryd hirach i lenwi'r bledren. Bydd hyn yn helpu i osgoi'r BCG rhag gwanhau, a bydd hefyd yn ei gwneud hi'n haws i chi ddal y BCG yn y bledren am 2 awr. Gallwch fwyta fel arfer.

- Os ydych fel arfer yn cymryd tabledi dŵr (diwretigion), dylech eu cymryd ar ôl i'r driniaeth BCG ddod i ben neu o leiaf 6 awr cyn y driniaeth. Bydd hyn yn lleihau swm yr wrin fydd yn cael ei gynhyrchu, ac yn eich galluogi chi i ddal y BCG yn y bledren.

**Beth sy'n digwydd yn ystod y driniaeth?**

- Bydd gofyn i chi basio wrin fel bod y bledren yn wag.

- Bydd cathetr (tiwb gwag) yn cael ei basio i mewn i'r bledren drwy'r bibell ddŵr (wrethra) i ddraenio unrhyw wrin sy'n weddill. Bydd BCG, wedi'i gymysgu ag ychydig o ddŵr, yn cael ei roi i mewn i'r bledren drwy'r cathetr.

- Yna, bydd y cathetr yn cael ei dynnu allan. Mewn rhai achosion, efallai bydd y cathetr yn cael ei adael yn y bledren pan fyddwch yn derbyn eich triniaeth. Os hyn yw'r achos, bydd y cathetr yn cael ei glampio er mwyn cadw'r BCG yn y bledren.

- Bydd gofyn i chi beidio â phasio wrin am y 2 awr nesaf. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y driniaeth yn gweithio i ddinistrio'r celloedd canser.

- Gallwch gerdded o gwmpas tra bod y BCG yn y bledren; bydd hyn yn helpu'r BCG i weithio ar y bledren yn ei chyfanrwydd.

**Pa mor hir bydd y driniaeth yn para?**

- Bydd angen i chi gadw'r BCG yn y bledren am 2 awr. Ar ôl hyn, bydd gofyn i chi basio wrin, a byddwch yn gallu mynd adref. Dylech deimlo'n ddigon da i yrru ar ôl y driniaeth.

- Os ydych yn hen neu'n wan, dylech drefnu bod ffrind neu berthynas yn dod i'ch nôl chi.

**Beth i'w wneud ar ôl y driniaeth?**

- Pan fydd y BCG wedi bod yn y bledren am 2 awr, bydd gofyn i chi basio wrin yn y toiled (dylai dynion eistedd yn hytrach na sefyll i osgoi tasgu). Os cafodd y cathetr ei adael i mewn yn y bledren yn ystod y driniaeth, bydd y BCG yn cael ei ddraenio i mewn i fag cyn tynnu'r cathetr allan. Byddwch yn cael yfed rhywbeth nawr os ydych eisiau.

- Rhyw – dylech osgoi rhyw/rhyw geneuol am 2-3 diwrnod ar ôl bob triniaeth. Dylech ddefnyddio condom ar ôl hynny a pharhau i'w ddefnyddio am sawl wythnos ar ôl i'r driniaeth ddod i ben.

- Nid ydym yn gwybod sut effaith y mae'n ei chael ar feichiogrwydd. Os ydych yn bwriadu cael plant, dylech drafod â'ch doctor oherwydd caiff cleifion sy'n fenywod o oed magu plant gyngor i ddefnyddio dulliau atal cenhedlu ac i aros o leiaf 2 flynedd cyn beichiogi, a mwy os ydynt yn cael triniaeth gynnal.

- Cynghorir yn erbyn bwydo ar y fron wrth gael triniaeth BCG.

- Byddwch yn gallu cyflawni gweithgareddau normal ar ôl y driniaeth. Does dim cyfyngiadau o ran gyrru, gweithio ac ati.

**Oes unrhyw ragofalon arbennig y dylwn i eu cynnal gartref?**

- Golchwch eich dwylo/organau cenhedlu â sebon a dŵr bob tro ar ôl pasio wrin. Dylid gwneud hyn am o leiaf 6 awr ar ôl y driniaeth.

- Ar ôl pasio wrin, arllwyswch 2 lond cwpan o gannydd cartref heb ei wanhau i'r toiled, a gadewch e fod yno am 15 munud cyn fflysio. Sicrhewch nad oes unrhyw un yn defnyddio'r toiled yn ystod yr amser hwn neu cyn fflysio. Dylid trin yr holl wrin yr ydych yn ei basio o fewn 6 awr ar ôl amser dechrau'r driniaeth fel yr uchod.

**Oes unrhyw sgil-effeithiau posibl all godi o'r driniaeth?**
Bydd 9 allan o bob 10 o bobl sy'n cael triniaeth BCG yn datblygu rhai sgil-effeithiau; bydd y rhain fel arfer yn digwydd o fewn 3-4 awr i ddiwedd y driniaeth a gallent bara hyd at 1-3 diwrnod.

**Ymhlith y sgil-effeithiau cyffredin mae:**

- Poen a/neu losgi wrth basio wrin
- Gwaed yn eich wrin
- Angen pasio wrin yn rheolaidd (llid ar y bledren, cystitis)
- Tymheredd, salwch megis ffliw neu deimlo'n sâl yn gyffredinol

Bydd yfed 2 litr o hylif, oni bai i chi gael cyngor fel arall, ac osgoi te/coffi am 24 awr ar ôl y driniaeth yn helpu i waredu unrhyw gyffur sy'n weddill yn y bledren a lleddfu'r symptomau uchod.

Mae'r uchod oll oherwydd y driniaeth ar y bledren, a does dim i'w boeni amdano. Dylai'r symptomau hyn ddod i ben ar ôl diwrnod neu ddau.

**Cysylltwch â'ch Meddyg Teulu/Nyrs yn syth yn yr amgylchiadau canlynol:**

- Mae symptomau'n para am fwy na 2-3 diwrnod
- Mae'r wrin yn gymylog/arogli'n gryf
- Mae'r tymheredd yn uwch na 38°C
- Chwydu
- Poen yn y cymalau
- Brech ar y croen
- Peswch

**Ewch i weld meddyg neu ewch i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn syth yn yr amgylchiadau canlynol:**

- Rydych yn fyr o wynt
- Rydych yn cael trafferth wrth anadlu
- Mae eich wyneb yn chwyddo

**Bydd angen i chi roi gwybod iddyn nhw eich bod wedi cael triniaeth BCG.**

**Pa driniaeth ddilynol y byddaf yn ei chael?**

- Ar ôl i chi gwblhau'r driniaeth byddwn yn trefnu i chi gael cystoscopi (archwiliad o'r bledren â thelesgop) mewn 8 wythnos i weld os yw'r driniaeth wedi gweithio. Fel arfer, defnyddir anaesthetig cyffredinol ar gyfer hyn (byddwch yn cael eich rhoi i gysgu) neu anaesthetig sbinol (yn ddideimlad o'r canol i lawr) oni bai bod y meddyg yn dweud fel arall. Mae'n bosibl y bydd biopsiau eraill yn cael eu cymryd fel arall. Byddwch yn gallu mynd adref ar ddiwrnod y llawdriniaeth neu'r diwrnod ar ôl.

**A fydd angen unrhyw driniaeth arall arnaf?**

- Mae'n debygol y bydd y meddyg yn penderfynu parhau â thriniaeth BCG gynhaliol i atal canser y bledren rhag dychwelyd. Mae hyn yn golygu cael triniaeth BCG unwaith yr wythnos am 3 wythnos yn ystod mis 3, 6, 12, 18, 24, 30 a 36 yn dilyn rownd gyntaf eich triniaeth BCG.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:**

**Wardiau Wroleg:**

D 2 Dwyrain: 01633 – 234043 / 234044 ( 24 awr )

Ward Ddydd Wroleg:-
Rhif Ffôn: 01633 – 656378 / 656377
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Adran Gleifion Wroleg Allanol:
Rhif Ffôn: 01633 234979
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Laura Reynolds, Ymarferwyr Nyrsio Wroleg:
Rhif Ffôn: 01633 234758
Llun – Iau – oriau swyddfa a phob yn ail ddydd Gwener

Julie Simpson, Nyrs Arbenigol Wro-oncoleg:-
Rhif Ffôn: 01633 – 238976 / 01873 – 732081(Nevill Hall)

Louise Broadway
Rhif Ffôn: 01633 238976

**Cyfeiriadau:**

Cumisky (2000) BCG Immune Therapy for Carcinoma of the Urinary Bladder

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English.**